crci ihcc
Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd
International Health Coordination Centre

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Adroddiad Cynnydd y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (CRCI)

2022-2024







Dyddiad: Mehefin 2025

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Awduron

Datblygwyd yr adroddiad hwn gan y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (CRCI), Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd dros Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru: Liz Green, Laura Holt a Graeme Chisholm, yn ymgynghori ar gyfer Partneriaethau Iechyd Byd-eang.

# Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch yn arbennig i holl bartneriaid CRCI a gyfrannodd astudiaethau achos at yr adroddiad hwn.

---

ISBN 978-1-83766-608-9

© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025

Gellir atgynhyrchu deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w datgan.

# Cynnwys


## Crynodeb gweithredol 2

## Cyflwyniad 3

## Adran un: Cefndir 4

## Adran dau: Cynnydd y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd 5

## Adran tri: Gweithgarwch Iechyd Rhyngwladol ar draws GIG Cymru 7

Partneriaethau Iechyd Byd-eang Cymru 7

Prosiect Fferylliaeth Stiwardiaeth Gwrthficrobaidd (AMS) Malawi/Cymru 9

Interburns - Meithrin capasiti ar gyfer rheoli anafiadau llosgi yn effeithiol 11

Ymweliad Gweinidogaeth Iechyd yr Iseldiroedd â Chymru 12

Life for African Mothers 13

Ehangu model o ofal iechyd sylfaenol integredig yn Mbale, Uganda 14

Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol a ariennir gan Raglen Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru 16

Fforwm Iechyd y Cyhoedd Byd-eang Pedair Gwlad y DU 18

Cynghrair Abertawe-Panzi ar gyfer ail-greu a gofalu am ddioddefwyr trais rhywiol cysylltiedig â gwrthdaro (SPARC) 19

Voices of the Experts in our Midst – Wales 21

Gweithdai Dinasyddiaeth Fyd-eang 23

Adroddiadau Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol 24

Galluogi Economi Lesiant yng Nghymru: Cydweithio rhwng Sefydliad Iechyd y Byd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru 25

## Adran pedwar: Camau gweithredu arfaethedig ar gyfer y dyfodol 27

## Adran Pump: Sylwadau i gloi 29

## Cyfeiriadau 30


This report is also available in English

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio gweithgareddau'r Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (CRCI), a'r gweithgarwch iechyd rhyngwladol ehangach a'r gwaith partneriaeth a gynhaliwyd yn GIG Cymru rhwng 2022 a 2024.

Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod bod trawsnewidiadau sylweddol wedi digwydd ers y pandemig a bod y GIG yng Nghymru yn parhau i weithredu o dan amgylchiadau heriol iawn. Ac eto, drwy gydol yr adroddiad rydym yn arddangos lle mae unigolion a sefydliadau wedi llwyddo i ddarparu gwasanaethau nid yn unig yng Nghymru ond hefyd gyda phartneriaid yn rhyngwladol. Mae'r adroddiad yn cyflwyno detholiad cyfoethog o weithgareddau rhyngwladol a ariennir neu a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, o Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd, Elusennau a sefydliadau ledled Cymru.

Mae'r CRCI wedi bod, a bydd yn parhau i fod, yn allweddol i sicrhau bod dysgu rhyngwladol ac arferion da yn cael eu mewnforio i Gymru ac yn cael eu hallforio ohoni. Mae'r CRCI wedi dangos hyn drwy chwarae rhan ganolog mewn dau **Fforwm Iechyd Cyhoeddus Byd-eang Pedair Gwlad y DU**, a fynychwyd gan bob un o'r pedwar Prif Swyddog Meddygol yn y DU. Gan adeiladu ar lwyddiant hyn, **cynhaliwyd Fforwm Iechyd y Cyhoedd Rhyngwladol agoriadol Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC)** ym mis Tachwedd 2024 gan ddarparu llwyfan traws-sectorol i uwch arweinwyr a chydweithwyr hyrwyddo a rhannu'r hyn a ddysgwyd o weithgareddau iechyd rhyngwladol ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru a'i bartneriaid, gan nodi cyfleoedd yn y dyfodol i gymryd rhan mewn partneriaethau a rhwydweithiau rhyngwladol.

**Y Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru: Mae pecyn cymorth gweithredu** hefyd wedi'i ddiweddaru'n llwyddiannus. Y gobaith yw y bydd yr adnodd hwn ar y we nid yn unig yn darparu deunydd gwerthfawr i bawb sy'n ymwneud ag annog cysylltiadau iechyd rhyngwladol ond y bydd yn parhau i dyfu ac esblygu trwy gyfraniadau'r holl bartneriaid dan sylw.

Datblygiad nodedig arall dros y ddwy flynedd ddiwethaf yw trawsnewid **Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica (WaAHLN)** yn Bartneriaethau Iechyd Byd-eang Cymru (GHPC) ym mis Tachwedd 2024. Gan adeiladu ar waith dylanwadol WaAHLN, nod GHPC yw datblygu ei weledigaeth ar gyfer cymuned fyd-eang iachach a thecach trwy gynnig cymorth cyllid strategol, ac eiriolaeth, i ysgogi canlyniadau iechyd cadarnhaol a chynaliadwy trwy bartneriaethau iechyd cydweithredol.

Daw'r adroddiad i ben gan grynhoi cynlluniau'r CRCI ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Mae annog dull strategol yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac felly mae parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru yn bwysig, yn ogystal â gweithio'n agosach gyda sefydliadau ledled Cymru. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae gwerthoedd y Siarter wedi'u hamlygu'n glir mewn gweithgareddau rhyngwladol a gynhaliwyd ar draws y GIG yng Nghymru. Er ei fod yn galonogol, nod CRCI yw ehangu a thyfu ei waith yn y maes hwn er mwyn parhau i ymgorffori egwyddorion y Siarter yn ymarferol. Bydd cymorth ymarferol yn parhau i gael ei ddarparu i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau i annog ymgysylltiad rhyngwladol gan ganolbwyntio'n arbennig ar systemau i alluogi rhannu arferion da.

Bydd y camau gweithredu arfaethedig a nodir yn yr adroddiad hwn; cefnogi dull strategol cydgysylltiedig â Llywodraeth Cymru, adeiladu ar Strategaeth Iechyd Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru, meithrin gweithredu ynghylch gweithgarwch iechyd rhyngwladol, ehangu'r siarter ar gyfer partneriaethau iechyd rhyngwladol, yn caniatáu i CRCI arwain dros y blynyddoedd nesaf ar gefnogi ymgysylltiad rhyngwladol i wella iechyd a llesiant cenedlaethau presennol a dyfodol yng Nghymru a thu hwnt.

# Cyflwyniad

Yn dilyn yr adroddiad blaenorol a oedd yn ymdrin â blynyddoedd y pandemig a'u canlyniadau uniongyrchol - 2018-2022 (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022) mae Adroddiad Cynnydd y CRCI hwn yn pwyso a mesur y cynnydd a wnaed dros y blynyddoedd 2023-25 o ran gweithio mewn partneriaethau rhyngwladol yn y GIG yng Nghymru. Ddwy flynedd ar ôl yr adroddiad blaenorol, mae dealltwriaeth ddyfnach o sut mae'r pandemig nid yn unig wedi gwaethygu anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd ond wedi newid ein cymdeithasau yn barhaol.

Gellir manteisio ar gyfleoedd o'r profiadau hyn. Amlygodd y pandemig yn glir bwysigrwydd iechyd y cyhoedd a chymdeithas ac economi sy'n gweithredu'n iach a sut mae'r rhain yn cydblethu. Mae syniadau newydd fel yr 'economi les' wedi dod yn fwy atyniadol gyda symudiadau byd-eang yn dod i'r amlwg sy'n dechrau ailfeddwl mwy am economïau o amgylch pobl, yr amgylchedd a'r blaned. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda'i Chanolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd dros Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant a Llywodraeth Cymru ar flaen y gad yn y mudiad hwn. Mae Cymru wedi adeiladu momentwm sylweddol wrth ddatblygu ei henw da fel cenedl sy'n edrych tuag at y dyfodol ac sydd wedi ymrwymo i ddyfodol cynaliadwy hirdymor wedi'i seilio ar economi lesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Wrth i Gymru barhau i ehangu a chryfhau ei heffaith ar y llwyfan byd-eang, mae'n gwneud hynny gan wybod bod Strategaeth Ryngwladol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2020) wedi'i hategu gan sawl darn o ddeddfwriaeth flaengar yn sail gadarn i wneud hynny.  Dyma'n union lle mae'r Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (CRCI) wedi bod, a bydd yn parhau i fod yn allweddol. Mae'r CRCI yn caniatáu i ddysgu rhyngwladol ac arferion da lifo o Gymru ac i Gymru trwy alluogi partneriaethau strategol a lleol. Ni fu erioed fwy o angen am safle'r CRCI fel canolbwynt ar gyfer gwaith rhyngwladol cysylltiedig ag iechyd ar draws y GIG yng Nghymru, er enghraifft fel hyb ar gyfer rhannu ac adeiladu ar ragoriaeth, arbenigedd, angerdd ac ymrwymiad cymuned iechyd Cymru.  Er bod cenhadaeth ac amcanion y CRCI yn aros yr un fath, mae'r adroddiad hwn yn arolygu'r hyn y mae'r CRCI, Llywodraeth Cymru, Ymddiriedolaethau'r GIG a grwpiau fel GHPC wedi'i gyflawni dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac yn amlygu'r newidiadau posibl sydd eu hangen i sicrhau cynnydd pellach.

Yn yr adroddiad hwn, fe welwch lawer o enghreifftiau o weithgareddau o bob rhan o Gymru sy'n dangos nid yn unig gwydnwch a dyfeisgarwch, ond sydd hefyd yn arddangos y gwerthoedd a nodir yn y Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol. Sef yr angen i'r holl fentrau hyn ddangos cyfrifoldeb sefydliadol, i fod yn wirioneddol ddwyochrog, i chwilio am arferion da a'u bod yn debygol o ffynnu dim ond pan fydd llywodraethu da yn ei le. Mae'r enghreifftiau hyn nid yn unig yn dangos yr anawsterau o gyflawni prosiectau o'r fath yn y cyfnod presennol, ond hefyd yn ysbrydoliaeth i'r rhai sy'n ystyried rhoi cynnig ar weithgareddau tebyg i ddangos ei bod yn bosibl gwneud hynny a thrwy gydweithio a dysgu y gall pob un ohonom gyfrannu at lesiant pawb.

# Adran un: Cefndir

Wedi'i sefydlu yn 2013, mae'r CRCI wedi'i leoli o fewn y Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd dros Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (WHOCC) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r CRCI yn rhaglen waith unigryw ar gyfer Cymru gyfan, sy'n dod â'r holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG ynghyd. Mae'n hyrwyddo ac yn hwyluso partneriaethau iechyd rhyngwladol, gan wasanaethu fel canolbwynt ar gyfer rhannu gwybodaeth, cyfnewid gwybodaeth, cydweithio a rhwydweithio ar draws y DU, Ewrop a'r byd. Mae wedi llwyddo i sefydlu rhwydwaith cryf o randdeiliaid allweddol o fewn a thu hwnt i ffiniau Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cymru ac Affrica, cyrff anllywodraethol, a phartneriaid a rhwydweithiau'r DU, Ewrop a byd-eang.

Yn 2023, diweddarodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ei Strategaeth Iechyd Rhyngwladol (Green L, Clark E, Holt L, Malcolm A, Ezenwugo G, Stewart D a Dyakova M (2023)) i adlewyrchu'n well y newidiadau sylweddol yn y dirwedd fyd-eang ac i alluogi Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru (2023).

Mae'r CRCI yn parhau i elwa o gael ei ymgorffori yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, o dan ymbarél Strategaeth Iechyd Rhyngwladol ddiwygiedig Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddod â chysylltiadau rhyngwladol eang gan gynnwys y rhai a sefydlwyd trwy Ganolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHOCC).

Mae'r Strategaeth Iechyd Rhyngwladol yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sy'n caniatáu i sefydliadau'r GIG ddangos cyfrifoldeb byd-eang drwy ymgysylltu â gwaith iechyd rhyngwladol yn unol â chanllawiau arfer gorau. Yn ehangach, mae'r Strategaeth Iechyd Rhyngwladol yn cyd-fynd â Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru (2020) a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (2015).

**Mae gwaith y CRCI wedi parhau i fod yn canolbwyntio ar alluogi a chefnogi gweithredu'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol a hyrwyddo cysyniadau fel Dinasyddiaeth Fyd-eang. Er y bydd yr adroddiad hwn yn adlewyrchu ar effeithiolrwydd y Siarter bresennol, mae'r safonau y mae'n eu gosod yn parhau i fod yn ffon fesur ar gyfer partneriaethau iechyd rhyngwladol ac maent wedi'u seilio o gwmpas pedair carreg sylfaen:**

- **Cyfrifoldebau sefydliadol:** Cydnabod bod ymgysylltiad ac ymrwymiad sefydliadol cryf yn hanfodol
- **Gweithio'n gilyddol mewn partneriaeth:** Yn seiliedig ar gydweithio, cydraddoldeb, parch gan y naill at y llall a budd y ddwy ochr
- **Arferion da:** Ceisio tystiolaeth, dathlu canlyniadau cadarnhaol a dysgu o anawsterau
- **Llywodraethu cadarn:** Gydag amcanion a chyfrifoldebau clir ar gyfer pawb dan sylw

Daeth yr adroddiad cynnydd diwethaf i ben gyda chynlluniau i gryfhau gwaith y CRCI, a gweithgarwch iechyd rhyngwladol Cymru yn fwy cyffredinol. Mae adran dau yn cyflwyno'r rhain, ynghyd â chrynodeb o gamau gweithredu a chynnydd tuag atynt.

# Adran dau: Cynnydd y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd

## 1. Creu Grŵp Gweithgareddau Iechyd Rhyngwladol y GIG

Mae'r CRCI wedi arwain ar uno Grŵp Gweithredu'r Siarter a'r Grŵp Cynghori Strategol Rhyngwladol ar Iechyd yn llwyddiannus i ddwyn cynrychiolwyr traws-sector ynghyd o Lywodraeth Cymru, y byd academaidd, GIG Cymru, y Trydydd Sector a'r DU ehangach. Mae gan y grŵp hwn bellach dros 40 o aelodau ac mae'n cyfarfod bob chwarter i rannu'r hyn a ddysgwyd ac arferion gorau ar weithgarwch iechyd rhyngwladol.

## 2. Gwneud paratoadau ar gyfer agwedd newydd tuag at iechyd rhyngwladol yng Nghymru

Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adolygiad cwmpasu fel rhan o'r broses o adnewyddu'r Strategaeth Iechyd Rhyngwladol. Roedd hyn yn cynnwys mapio gweithgarwch rhyngwladol ar draws y sefydliad ac ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori helaeth trwy arolygon a chyfweliadau â hysbyswyr allweddol.

Adolygwyd y Siarter, ac mae Pecyn Cymorth y Siarter hefyd wedi'i ddiweddaru'n llwyddiannus yn ddwyieithog.

## 3. Ymgysylltu â sefydliadau'r GIG i godi proffil gweithgarwch iechyd rhyngwladol

Mae'r CRCI wedi bod yn ymgysylltu â sefydliadau'r GIG ar weithgarwch iechyd rhyngwladol drwy gynnull y Grŵp Gweithgareddau Iechyd Rhyngwladol dan gadeiryddiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r Grŵp yn trafod ac yn rhannu cyfeiriad gweithgarwch iechyd rhyngwladol a chydweithio yn y dyfodol, gan sicrhau aliniad â blaenoriaethau strategol cenedlaethol a sefydliadol.

Cynhaliwyd Fforwm Iechyd Cyhoeddus Rhyngwladol cyntaf Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Tachwedd 2024 gan gynnig cyfle ledled Cymru i rannu mewnwelediadau o weithgareddau ac ymchwil iechyd rhyngwladol yn ogystal â thrafod cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â phartneriaethau iechyd rhyngwladol yn y dyfodol. Mae'r CRCI wedi cynnal nifer o weithdai Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn cydweithrediad â Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru. Mae ymgysylltiad y GIG hefyd wedi'i gryfhau trwy gylchlythyr chwarterol y CRCI.

### 4. Gweithredu argymhellion gwerthusiad gweithredu'r Siarter

Mae cynnydd wedi'i wneud ar argymhellion y gwerthusiad, yn fwyaf nodedig ynghylch cyfathrebu â datblygu bwletin newyddion rheolaidd a hyrwyddo'r Siarter mewn cynadleddau. Mae adnoddau hefyd wedi'u datblygu megis pecyn cymorth diwygiedig y Siarter. Mae llwyfannau ar gyfer rhannu arferion gorau megis grŵp gweithgarwch Iechyd Rhyngwladol y GIG a Fforwm Iechyd Rhyngwladol wedi'u sefydlu.

## Cyflawniadau eraill

Ym mis Chwefror 2024, adnewyddwyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd, Ewrop, gan helpu i gryfhau cysylltiadau rhyngwladol a darparu ysgogiad cryf i gefnogi Cymru i gyflawni'r nodau o ddod yn genedl iachach a mwy ffyniannus.

Ym mis Medi 2023 a mis Mai 2024, cefnogodd y CRCI y gwaith o drefnu dau Fforwm Iechyd y Cyhoedd Byd-eang Pedair Gwlad y DU, a weithredodd fel ysgrifenyddiaeth iddynt, dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Meddygol Cymru. Sefydlwyd y Fforwm chwe-misol i gefnogi rhannu gwybodaeth ar faterion a mentrau iechyd y cyhoedd byd-eang ar draws pedair gwlad y DU.

Ym mis Hydref 2024, ymunodd cynrychiolwyr o Weinyddiaeth Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yr Iseldiroedd (VWS) a Sefydliad Cenedlaethol yr Iseldiroedd dros Iechyd y Cyhoedd a'r Amgylchedd (RIVM) ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, arweinwyr iechyd Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd ar gyfer Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer cyfnewidfa dysgu cydweithredol. Cefnogodd y CRCI drefniadaeth yr ymweliad ac, ers hynny, mae wedi hwyluso cyfarfodydd dilynol ar gyfer cydweithredu parhaus, gan ddyfnhau cydweithio yn y dyfodol ar bynciau megis Asesiadau Effaith ar Iechyd.

# Adran tri: Gweithgarwch Iechyd Rhyngwladol ar draws GIG Cymru

## Partneriaethau Iechyd Byd-eang Cymru

Ym mis Tachwedd 2024, ffurfiwyd Partneriaethau Iechyd Byd-eang Cymru (GHPC) yn dilyn cyfuniad rhwng Partneriaethau Iechyd Byd-eang (GHP), a elwid gynt yn THET (Yr Ymddiriedolaeth Iechyd ac Addysg Drofannol), a Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica, a oedd wedi bod yn gweithredu ers dros bymtheg mlynedd. Mae'r sefydliad yn cydweithio'n helaeth â sector datblygu Cymru, gan gynnwys Hub Cymru Affrica, y Panel Cynghori Is-Sahara, a Rhaglen Cymru ac Affrica yn Llywodraeth Cymru, ynghyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cenhadaeth GHPC yw gweithio gyda phartneriaid, gweithwyr iechyd byd-eang, a rhanddeiliaid i gryfhau capasiti mewn systemau iechyd byd-eang a gwella gallu'r gweithlu mewn gwledydd incwm isel a chanolig.

Wrth i GHPC ddechrau gweithredu ei gynllun 2024-2027, ei amcanion strategol yw blaenoriaethu gwelliannau iechyd cynaliadwy trwy ddysgu ar y cyd, gwell darpariaeth gwasanaethau gofal iechyd, ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae eu cynllun wedi'i hysbysu'n llawn trwy ymgysylltu â dros ddeg ar hugain o bartneriaethau iechyd, gan ddefnyddio'r llwyddiannau a'r hyn a ddysgwyd o'r cylch blaenorol i fwydo i mewn i fap ffordd GHPC ar gyfer cyflawni ei nodau dros y tair blynedd nesaf.

### Y SIARTER AR GYFER PARTNERIAETHAU IECHYD RHYNGWLADOL YNG NGHYMRU GWERTHOEDD

Mae amcanion a dull gweithredu strategol GHPC yn ategu holl gerrig sylfaen y Siarter o gyfrifoldebau sefydliadol, gweithio'n gilyddol mewn partneriaeth, arfer da a llywodraethu cadarn:

**Gwerthoedd Craidd:**
Mae gwerthoedd GHPC o Bartneriaeth, Cyd-Arweinyddiaeth, Gostyngeiddrwydd, a Gweithredu ar Sail Anghenion yn sylfaenol i'w ddull gweithredu:

- Mae partneriaeth yn canolbwyntio ar feithrin cysylltiadau hirdymor, llawn ymddiriedaeth lle rhennir cyfrifoldebau ac adnoddau yn deg.
- Mae cyd-arweinyddiaeth yn grymuso rhanddeiliaid i greu mentrau ar y cyd, gan sicrhau arweinyddiaeth gynaliadwy a pherchnogaeth gymunedol.
- Mae gostyngeiddrwydd yn meithrin agwedd meddwl agored, gan werthfawrogi arbenigedd lleol ac addasu i anghenion unigryw pob cymuned.
- Mae Gweithredu ar Sail Anghenion yn sicrhau bod ymyriadau yn mynd i'r afael â'r heriau penodol a wynebir gan gymunedau, gan feithrin effaith gynaliadwy.

Trwy bartneriaethau iechyd cydweithredol, cymorth ariannu strategol, ac eiriolaeth, nod GHPC yw sbarduno canlyniadau iechyd cadarnhaol a chynaliadwy. Trwy rymuso cymunedau a meithrin dysgu ar y cyd, mae GHPC yn parhau i ddatblygu ei weledigaeth ar gyfer cymuned fyd-eang iachach a thecach.

### *Ymgysylltu â phartneriaethau iechyd*

Bydd ymrwymiad GHPC i feithrin cydweithrediad yn parhau gydag ymgysylltiad parhaus â phartneriaethau iechyd, gan gefnogi cyfnewid gwybodaeth a meithrin sgiliau. Mae mentrau arfaethedig yn cynnwys cynnal tri Digwyddiad Dysgu ar y Cyd (SLEs) – gan ddarparu, er enghraifft, sesiynau arbenigol ar Stiwardiaeth Gwrthficrobaidd, yn ogystal â gweithdai i hwyluso trafodaeth ar heriau a chyflawniadau partneriaethau iechyd rhyngwladol yng Nghymru gyda chymheiriaid yn Affrica, a chynadleddau blynyddol a chwemisol i wella cyfathrebu a rhannu arferion gorau.

Trwy ddarparu llwyfan i weithwyr iechyd gysylltu a rhannu mewnwelediadau, mae GHPC yn sicrhau bod gwelliannau gofal iechyd yn cael eu llywio gan arbenigedd amrywiol a gwybodaeth leol.

### Gweithdy Uwchgynhadledd Fyd-eang gyda phartneriaethau iechyd, Medi 2024




*Is-Gadeirydd, Israa Mohammed, Cadeirydd, Julia Terry, GHPC a Phrif Weithredwr GHP, Ben Simms*

### *Ceisiadau am gyllid a grantiau*

Gan gydnabod rôl hanfodol cymorth ariannol mewn prosiectau iechyd byd-eang, mae GHPC hefyd yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd ariannu a hwyluso ceisiadau grant ar gyfer ei bartneriaethau iechyd. Mewn cydweithrediad â Hub Cymru Affrica a Phartneriaethau Iechyd Byd-eang, mae GHPC yn darparu diweddariadau rheolaidd ar alwadau ariannu ac yn anelu at gynnydd blynyddol o 10% mewn ceisiadau grant a gyflwynir gan bartneriaethau iechyd rhyngwladol. Mae'r amcan hwn yn cyd-fynd â chenhadaeth ehangach GHPC i rymuso cymunedau a gwella canlyniadau iechyd trwy gymorth parhaus.

### *Ymgysylltu â rhanddeiliaid ac eiriolaeth*

Mae dull a yrrir gan bartneriaeth GHPC yn ymestyn i ymgysylltu â rhanddeiliaid, lle mae'r sefydliad yn gweithio'n agos gyda Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru, llywodraethau, ac eiriolwyr iechyd byd-eang i ddylanwadu ar bolisi a hyrwyddo ymdrechion iechyd byd-eang cydweithredol. Mae gan bob un o aelodau pwyllgor y GHPC bartneriaethau iechyd unigol y maent yn cysylltu â nhw'n rheolaidd ac yn darparu gwybodaeth am gyfleoedd ariannu a digwyddiadau addysg.

## Prosiect Fferylliaeth Stiwardiaeth Gwrthficrobaidd (AMS) Malawi/Cymru

Mae partneriaeth a arweinir gan fferylliaeth rhwng gweithwyr fferyllol proffesiynol ledled Malawi a Chymru wedi hyfforddi dros 400 o weithwyr iechyd ym Malawi i ddeall y bygythiad gan **Stiwardiaeth Gwrthficrobaidd (AMS)** a gweithredu gweithgareddau AMS yn eu sefydliadau gofal iechyd. Mae'r prosiect wedi hyrwyddo rhannu arferion da a chasglu data presgripsiynu fel rhan o'r Arolwg Cyffredinolrwydd Pwynt Byd-eang (GPPS) - dull safonol ar gyfer gwyliadwriaeth o ddefnydd gwrthficrobaidd.

Mae'r bartneriaeth hon sy'n cael ei rhedeg gan Gymdeithas Fferyllol Malawi (PHASOM) a Grŵp Fferylliaeth Gwrthficrobaidd Cymru (WAPG) a gynhelir trwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn adeiladu ar waith a gynhaliwyd trwy brosiect Partneriaethau Stiwardiaeth Gwrthficrobaidd blaenorol y Gymanwlad a ariannwyd drwy Bartneriaethau Iechyd Byd-eang.

Mae'r bartneriaeth wedi lleoli gwirfoddolwyr i gydlynu a rhedeg y rhaglen ledled Malawi ac, ar hyn o bryd, maent yn hyfforddi gweithwyr iechyd mewn saith ysbyty. Pob ysbyty trydyddol ac atgyfeirio ym Malawi: Mae ysbytai Kamuzu Central (KCH), Mzuzu, Zomba a'r Frenhines Elizabeth (QEH) ynghyd â thri ysbyty ardal, Mchinji, Ntcheu a Dedza yn defnyddio'r model hyb ac adain gyda KCH fel y canolbwynt. Yn ogystal, mae pecyn cymorth hyfforddi wedi'i ddatblygu gan wirfoddolwyr o PHASOM a WAPG ar AMS ar gyfer y staff yn y cyfleusterau hynny.

### ARFERION DA

Mae'r tîm wedi hyfforddi'r pwyllgorau AMS ar draws pob un o'r saith ysbyty, ar ôl cefnogi eu sefydlu, eu cadeiryddion a chylchoedd gorchwyl ar gyfer y grwpiau hynny. Gan weithio gyda thîm rheoli'r ysbyty, maent hefyd wedi sicrhau bod AMS yn rhaglen wreiddiedig sy'n cael ei monitro a'i gyrru ymlaen ar draws system iechyd y wlad.

I lansio'r bartneriaeth aeth aelodau craidd WAPG i ddigwyddiad lansio, gan ymweld â phob un o'r saith cyfleuster ym Malawi. Ym mis Mehefin 2024, ymwelodd pum fferyllydd o Malawi â sawl ysbyty, meddygfa a fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru a chafwyd profiad o rowndiau ward AMS, gwaith tîm amlddisgyblaethol, cyfarfod â chyfarwyddwr Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Cymru a chynrychiolwyr o Brifysgol Caerdydd a roddodd arweiniad ar sut i fynd ati i gyhoeddi'r gwaith.



## DYSGU DEUGYFEIRIADOL

*"Profiad na fyddwn byth yn ei anghofio. Cawsom y cyfle i ddysgu gan fferyllwyr yn ymarfer ar gyfandir arall a gymerodd ran yn frwd mewn rowndiau ward, sesiynau addysgu a chawsom sylwadau craff ar sut rydym yn ymarfer yn y DU ac fe wnaethom werthfawrogi sut rydym wedi dod yn rhan o'r tîm amlddisgyblaethol"* Tîm Fferylliaeth Ysbyty Cyffredinol Bronglais

*"Trwy'r ymweliad roeddem yn gallu gwerthfawrogi rôl fferyllwyr mewn gofal arbenigol (rhai o'r pethau yr ydym newydd eu darllen neu eu clywed o gynadleddau) fel yr Adran Achosion Brys, Gofal Lliniarol ac ati. Roedd mynd drwy'r rowndiau ward gyda thîm amlddisgyblaethol wedi agor fy meddwl i'r ymyriadau y gall gweithwyr fferyllol proffesiynol eu gwneud wrth erchwyn gwely."* William Mpute – Llywydd Cymdeithas Fferyllol Malawi (PHASOM)

Mae'r gwersi allweddol a ddysgwyd o'r bartneriaeth iechyd rhyngwladol hon yn cynnwys:

- Gwerth fferyllwyr o ran rheolaeth glinigol cleifion a sut mae hynny wedi effeithio ar ddatblygiad rolau arbenigol yn y DU.
- Gall sefydlu pwyllgorau AMS amlddisgyblaethol helpu i ysgogi ymgysylltiad AMS ar draws cyfleusterau.
- Pwysigrwydd addysg cleifion – mae heriau tebyg yn bodoli ym Malawi ac yng Nghymru o ran rhwystrau iaith yn ogystal â chyrraedd pobl mewn ardaloedd gwledig.






## Interburns - Meithrin capasiti ar gyfer rheoli anafiadau llosgi yn effeithiol

Mae arian drwy raglen Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru wedi cefnogi grŵp o nyrsys o uned losgiadau yn Tanzania i dderbyn hyfforddiant mewn triniaeth a gofal llosgiadau.

Mae anafiadau llosgi yn un o'r rhai mwyaf heriol i'w trin. Mae nyrsio yn chwarae rhan hanfodol mewn gofal llosgiadau. Amcangyfrifir bod 180 000 o farwolaethau bob blwyddyn yn cael eu hachosi gan losgiadau. Mae'r mwyafrif helaeth yn digwydd mewn gwledydd incwm isel a chanolig (Sefydliad Iechyd y Byd, 2023). O ganlyniad, mae cleifion llosg yn aml yn dioddef o gymhlethdodau hirdymor, anableddau gydol oes, stigma a thlodi cynyddol.

Sefydlwyd Interburns yn 2006 i wella gofal ac atal llosgiadau mewn gwledydd incwm isel a chanolig. Ers ei sefydlu, mae'r elusen o Gaerdydd wedi tyfu i fod yn rhwydwaith rhyngwladol blaenllaw ar gyfer hyfforddiant, addysg ac ymchwil ym maes llosgiadau. Sicrhawyd grant o £25,000 gan gynllun Cymru ac Affrica i ddarparu cwrs hyfforddi ar gyfer nyrsys uned losgiadau yn Tanzania.

### *Triniaeth uwch*

Mae Gofal Llosgiadau Uwch (Nyrsio) yn rhaglen bum niwrnod sy'n cwmpasu pob agwedd ar driniaeth - gan gynnwys rhwymynnau, rheoli poen a maeth i adsefydlu a gofal lliniarol. Datblygwyd yr hyfforddiant o raglenni blaenorol a ddarparwyd ym Mangladesh, Ghana, Nepal ac Ethiopia.

Mynychodd 32 o bobl yr hyfforddiant ym mis Chwefror 2023 yn Ysbyty Cenedlaethol Muhimbili. Arweiniwyd y cwrs gan gyfranogwr o sesiwn Gofal Hanfodol Llosgiadau blaenorol, sy'n dangos llwyddiant y rhaglen o ran meithrin gallu ac arweinyddiaeth ymhlith gweithwyr gofal llosgiadau proffesiynol. Dangosodd asesiad cyn ac ar ôl y cwrs fod y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wedi gweld y cwrs yn ddefnyddiol iawn ac y byddant yn cymhwyso'r hyn a ddysgwyd yn eu hamgylchedd gwaith.

*"Mae'r profiad wedi bod yn gyfoethog, yn atgof hardd ac yn lle da i ddysgu gan eraill, beth maen nhw'n ei wneud, sut maen nhw'n ei wneud a beth sy'n gweithio yn eu lleoliad. Mwynheais yr hyfforddiant yn fawr; byddaf yn llysgennad ar gyfer popeth yr wyf wedi ei ddysgu."* **Nyrs a fynychodd y cwrs**

### *Rhoi Cymru ar y map*

Mae Interburns yn enghraifft dda o sut y gall elusen Gymreig dyfu drwy gyllid datblygu iechyd rhyngwladol Cymreig, tra'n parhau i sicrhau manteision sylweddol i Gymru wrth iddi ehangu. Fel y gwnaeth yr adroddiad International health activity in Wales: Rapid review (Chalmers, 2021) bwysleisio, mae Interburns yn cynrychioli 'model arferion gorau o ddefnyddio adnoddau'n effeithlon ac ymgysylltu partneriaeth ystyrlon' ac mae wedi 'rhoi Cymru ar y map fel arweinydd byd-eang ym maes gofal llosgiadau'..

## Ymweliad Gweinidogaeth Iechyd yr Iseldiroedd â Chymru




Ym mis Hydref 2024, ymunodd cynrychiolwyr o Weinyddiaeth Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yr Iseldiroedd (VWS) a Sefydliad Cenedlaethol yr Iseldiroedd dros Iechyd y Cyhoedd a'r Amgylchedd (RIVM) ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, arweinwyr iechyd Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd ar gyfer Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer cyfnewidfa dysgu cydweithredol.

Dywedodd **Sumina Azam, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol:**
*"Roedd yn fraint enfawr croesawu cynrychiolwyr o RIVM a Gweinyddiaeth Iechyd yr Iseldiroedd. Gwelsom fod gennym lawer yn gyffredin, megis gwaith parhaus ar newid yn yr hinsawdd, iechyd yr amgylchedd, asesu'r effaith ar iechyd a'r dyfodol. Cawsom gyfle i fyfyrio a rhannu'r hyn a ddysgwyd gyda'n gilydd ar ein heriau iechyd cyhoeddus a'n gwaith i fynd i'r afael â'r rhain."*

Roedd cytundeb ar rôl ymgynghori cyhoeddus wrth lunio polisïau ac ymrwymiad ar y cyd i feithrin cyfranogiad cymunedol mewn mentrau iechyd.

**Y Camau Nesaf:** Cytunodd y cyfranogwyr y byddai nodi cyfleoedd ar gyfer ymchwil ar y cyd a gweithredu polisi mewn rhai meysydd o fudd i'r ddwy ochr ac roeddent wedi ymrwymo i ddyfnhau cydweithio yn y dyfodol.

Cefnogodd y CRCI yr ymweliad ac, ers hynny, mae wedi parhau i hwyluso cyfarfodydd dilynol ar gyfer cydweithio parhaus.

## Life for African Mothers

Sefydlwyd Life for African Mothers (LFAM) ym mis Mehefin 2005, yn dilyn pennod Panorama ar y BBC, yn canolbwyntio ar farwolaethau mamau yn Affrica Is-Sahara. Bryd hynny, roedd amcangyfrifon byd-eang yn dangos bod tua 535,900 o farwolaethau mamau yn digwydd bob blwyddyn, gyda 50% (tua 270,500) o'r marwolaethau hyn yn Affrica Is-Sahara (Hill, K. et al. 2007). Cafodd yr elusen, a oedd yn cael ei hadnabod ar y pryd fel Hope for Dr Grace Kodindo, ei henwi ar ôl obstetrydd ysbrydoledig, a oedd yn ceisio darparu'r gofal gorau posibl, mewn amgylchiadau heriol lle roedd prinder meddyginiaethau allweddol yn ffactor a gyfrannodd yn sylweddol at y marwolaethau hyn.

Ym mis Mai 2007, derbyniodd yr elusen gais gan Gronfa Poblogaeth y Cenhedloedd Unedig (NFPA) i helpu Sierra Leone a Liberia, dwy wlad sydd wedi'u rhwygo gan ryfel y mae eu systemau iechyd wedi'u difetha gan wrthdaro.

**CYFRIFOLDEB SEFYDLIADOL**

Cafodd Angela, sy'n Uwch Nyrs NICU, y cyfle i gael ei secondio i'r elusen o'i rôl glinigol a dechreuodd gyfres o ymweliadau â'r ddwy wlad.

Yn dilyn trafodaethau gyda Dr Kodindo, cynrychiolwyr UNFPA ac obstetryddion lleol, penderfynwyd y byddai gwaith yr elusen yn cael yr effaith fwyaf pe bai'n canolbwyntio ar y lladdwr unigol mwyaf o famau, (traean o gyfanswm y marwolaethau ar y pryd). Gwaedlif Ôl-enedigol oedd hwn ac yr oedd meddyginiaeth rad o'r enw Misoprostol ar ei gyfer, er mwyn ei atal neu ei drin. Ar y pwynt hwnnw, cyflwynwyd LFAM i sefydliad yn y DU, sy'n dod o hyd i feddyginiaethau newydd o ansawdd uchel, i'w cludo i wledydd incwm isel a'u dosbarthu am ddim.

Dros y blynyddoedd nesaf, mae darpariaeth y feddyginiaeth wedi'i gwella gan ymweliadau â'r ddwy wlad, gan fydwragedd a staff meddygol y DU, sydd wedi rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau sylfaenol. Roedd y rhyfeloedd wedi cael effaith fawr ar staffio a'r hyfforddiant sgiliau. Mantais ychwanegol yr ymweliadau oedd bod clinigwyr y DU yn gadael yn teimlo'n fwy gwerthfawrogol o systemau'r DU, gyda mwy o ymwybyddiaeth o wastraff er enghraifft.

Mae LFAM yn parhau i anfon y feddyginiaeth i'r ddwy wlad, ac ardaloedd penodol o wledydd eraill, lle'r oedd gan LFAM gysylltiadau personol. Dyfarnwyd grantiau i LFAM gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) i ddarparu ymwybyddiaeth o Covid yng nghymunedau tlotaf y ddwy wlad yn ystod y pandemig. Cyflwynwyd y rhain gan eu cynrychiolwyr a gwirfoddolwyr o fewn y wlad.

Yn 2023/24, datblygodd LFAM y syniad o greu hyrwyddwyr bydwreigiaeth lleol. Ar draws Sierra Leone, mae uwch fydwragedd wedi cael hyfforddiant ychwanegol gan eu gwirfoddolwyr. Mae'r hyrwyddwyr hyn bellach yn cyflwyno gweithdai rhannu sgiliau i'w cydweithwyr, weithiau wedi'u recordio ar gyfer y tîm yn y DU. Mae hyn yn cael mwy o effaith ar yr arian sydd ar gael, a gellir defnyddio tafodieithoedd lleol i wella dealltwriaeth.

**CYFRIFOLDEB SEFYDLIADOL**

Mae Llywodraeth Sierra Leone wedi rhoi amser gwarchodedig i'w hyrwyddwyr deithio i bellafoedd y wlad, yn dyst i lwyddiant cael perchnogaeth o'r prosiect.

Hyd yn hyn, mae LFAM wedi hwyluso'r gwaith o ddosbarthu meddyginiaeth i alluogi dros 1.5 miliwn o fenywod i'w chael yn rhad ac am ddim, cyflawniad sylweddol i sefydliad bach.

# Ehangu model o ofal iechyd sylfaenol integredig yn Mbale, Uganda

Sefydliad elusennol sy'n gefeillio cymunedau yn Ne Cymru a Mbale, Uganda yw'r Partnership Overseas Networking Trust (PONT). Ers ei sefydlu yn 2005, mae wedi cysylltu dros gant o sefydliadau a 1,500 o unigolion o'r ddwy gymuned i gydweithio mewn partneriaeth, gyda'r nod o liniaru tlodi ym Mbale. Mae meysydd eu prosiect yn cynnwys gofal iechyd sylfaenol, gwasanaeth ambiwlans beic modur, gweithdy peirianneg, bywoliaethau, cymorth i blant agored i niwed, addysg, a chanolfan bywyd gwyllt.



## LLYWODRAETHU CADARN

Mae PONT wedi ffurfio clymblaid unigryw gyda phedair swyddfa'r Llywodraeth Ranbarthol ac wyth o Sefydliadau Anllywodraethol (NGO's), gan ffurfio un sefydliad o'r enw Mbale Coalition Against Poverty, (Mbale CAP) a thrwyddo mae eu holl brosiectau'n cael eu cyflawni. Mae'n dod â chyrff anllywodraethol Uganda a'r Llywodraeth Ardal ynghyd, gyda llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir wedi annog pob partner i weithio tuag at nodau cyffredin.

Galluogodd grant gan Lywodraeth Cymru i'r bartneriaeth hyfforddi 240 o Weithwyr Iechyd Cymunedol (CHW) newydd yn 2023. Roedd y bartneriaeth yn dilyn Cwricwlwm Hyrwyddwyr Iechyd Cymunedol Llywodraeth Uganda, sy'n cynnwys pedair wythnos o addysgu yn y cnawd, wedi'i atal gan o leiaf bythefnos o waith maes. Yma, mae dysgwyr yn cael sesiynau ymarferol ac yn cael eu cefnogi mewn tasgau fel gwneud mapiau pentref, glanhau ffynonellau dŵr, a chynnal dadansoddiad o broblemau eu cymunedau gyda chynlluniau ymyrraeth. Darperir hyfforddwyr gan y swyddfa iechyd ardal a chaiff yr hyfforddiant ei oruchwylio gan gydlynydd gofal iechyd Mbale CAP. Mae ymgeiswyr yn cael eu dewis gan arweinwyr pentrefi lleol ar ôl dangos pryder am iechyd a hylendid yn eu pentrefi eisoes. Y prif amcanion ar gyfer gweithwyr CHW yw lleihau marwolaethau mamau, lleihau marwolaethau plant o dan bump oed, hyrwyddo hylendid a glanweithdra da ac atgyfeirio'n briodol.





## ARFERION DA

Cynhelir monitro bob blwyddyn pan fydd tîm meddygol PONT yn ymweld. Ym mis Chwefror 2024, cyfarfu'r tîm â gweithwyr CHW PONT sydd newydd gael eu hyfforddi a'u gweld yn addysgu "14 pwynt cartref iach" ac arddangosiad o sut i adeiladu cyfleuster golchi dwylo syml ond effeithiol, "tippy tap." Adroddodd gweithwyr CHW a buddiolwyr yr effaith gadarnhaol y mae gweithwyr iechyd yn ei chael a'r hyder y maent yn ei roi i'w cymunedau.

Hyd yma, mae'r bartneriaeth wedi hyfforddi 1,440 o weithwyr CHW ac mae ganddi fflyd o dri deg dau o ambiwlansys beiciau modur. Mae'r bartneriaeth wedi dysgu bod angen iddynt gynyddu'r ddarpariaeth ambiwlans ar y cyd â'u hyfforddiant er mwyn grymuso gweithwyr CHW yn llawn. Fel arall, bydd gweithwyr CHW wedi'u grymuso yn gwneud diagnosis o salwch ac yn sylwi ar arwyddion perygl mewn menywod beichiog heb y gallu i alw am drosglwyddiad brys i gyfleuster meddygol. Mae'r bartneriaeth wedi datblygu cefnogaeth leol ar gyfer yr uchelgais hwn, gan ymgysylltu ag arweinwyr iechyd ardal a'r Umukuuka ("Brenin" y bobl Bar Masaaba).




Eu nod yw cynyddu'r ddarpariaeth trwy sefydlu gwasanaeth ambiwlans gofal iechyd sylfaenol/beic modur integredig ar gyfer rhanbarth cyfan Mbale yn Uganda, gan ddarparu gofal iechyd cyfun amhrisiadwy i 700,000 o bobl eraill mewn pentrefi gwledig tlawd.

Oherwydd cost ac anhawster mewnforio offer, penderfynodd y bartneriaeth ddefnyddio eu gweithdy peirianneg eu hunain i ddechrau gweithgynhyrchu ym Mbale. Cafodd ambiwlans tuk-tuk ei brototeipio gan ddefnyddio siasi lleol gyda chyflenwad parod o ddarnau sbâr. Daeth y weledigaeth yn realiti trwy grant gan Festival Medical Services a chofrestrwyd ac ardystiwyd y prototeip gan Lywodraeth Uganda. Mae angen dogfennaeth ac achrediad pellach i alluogi masgynhyrchu, ond mae'r bartneriaeth yn bwriadu cynyddu cynhyrchiant yn fuan, gan ymestyn y model achub bywyd hwn o ofal iechyd integredig ar draws y rhanbarth.

## Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol a ariennir gan Raglen Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru



*Zohra Omar, Prif Nyrs Ymchwil Clinigol, Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli*

Ariennir y rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol (ILO) gan raglen Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru. Mae wedi'i hanelu at reolwyr ac arweinwyr profiadol a gyflogir yn barhaol yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghymru. Mae'n rhoi cyfle unigryw i dreulio wyth wythnos yn Affrica Is-Sahara yn gweithio ar brosiectau datblygu, sydd wedi'u cynllunio i wella sgiliau arwain.

Ers 2007, mae dros gant o gyfranogwyr wedi gallu cael profiad o fyw a gweithio mewn gwlad incwm isel a chanolig. Yn ogystal, mae cyfranogwyr wedi dychwelyd gyda sgiliau cryfach a mewnwelediad newydd ar yr hyn y mae'n ei olygu i weithio'n ddyfeisgar ac yn addasol - i helpu i wella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl Cymru yn wyneb cyfnod heriol.

Lleolwyd Zohra Omar yn Ysbyty Atgyfeirio Rhanbarthol Mbale yn Uganda rhwng Ionawr a Mawrth 2023. Mae Ysbyty Atgyfeirio Rhanbarthol Mbale yn nwyrain Uganda wrth odre Mynydd Elgon. Mae'n gwasanaethu poblogaeth o 4.5 miliwn ac yn derbyn pob atgyfeiriad o ysbytai rhanbarth, canolfannau iechyd a chlinigau preifat. Mae'r cyfleuster yn gwasanaethu mwy na phymtheg ardal yn y rhanbarth dwyreiniol.

Mae Zohra yn gweithio fel nyrs ymchwil glinigol arweiniol yn rheoli tîm yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli. Mae'n gweithio ar ddarparu amrywiaeth eang o ymchwil glinigol fasnachol ac anfasnachol yn amrywio o strôc oncoleg a diabetes i astudiaethau llawfeddygol ac anadlol, yn bennaf mewn lleoliadau gofal eilaidd o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.



*Mynedfa weinyddol i'r MRRH*



*Prif fynedfa'r MRRH*




*Ffordd i wardiau ac adrannau'r MRRH*

Roedd lleoliad Zohra yn canolbwyntio ar ymchwil glinigol a rhaglen gwella ansawdd yn theatr llawdriniaethau'r ysbyty.



*Dr Adam Hewitt-Smith, Zohra Omar, Joanne Nakibuule (Arweinydd Cyllid Ymchwil) a Justine Khanyalano (Rheolwr Ymchwil)*

Mae'r tîm ymchwil yn y broses o agor sefydliad o'r enw Canolfan Elgon ar gyfer Ymchwil ac Arloesi mewn Iechyd (ELCHRI). Bydd hyn yn hwyluso ymreolaeth i barhau ag astudiaethau ymchwil gyda memoranda cyd-ddealltwriaeth rhwng Ysbyty Atgyfeirio Rhanbarthol Mbale, Prifysgol Busitema a sefydliadau eraill.

Gan fod y Ganolfan yn sefydliad cymharol newydd gydag ychydig iawn o gofnodion, gweithdrefnau neu bolisïau yn eu lle, gweithiodd Zohra yn agos gyda rheolwr ymchwil ac arweinydd cyllid ymchwil y Ganolfan i flaenoriaethu'r polisïau a'r dogfennau yr oedd angen iddynt eu datblygu. Daeth yr angen am ddogfennaeth ddiogelu ac adnoddau dynol i'r amlwg fel prif flaenoriaethau.

Gweithiodd Zohra gyda chydweithwyr o Uganda i ddatblygu fframwaith diogelu sefydliadol. Gan fod deddfwriaeth ddiogelu leol yn brin, defnyddiwyd safonau rhyngwladol i alinio â deddfwriaeth Uganda ac amcanion sefydliadol.

Datblygodd a hyfforddodd Zohra y rheolwr ymchwil mewn hyfforddiant diogelu. Datblygwyd cod ymddygiad hefyd ar y cyd â thîm y Ganolfan ochr yn ochr â drafft o fecanweithiau adrodd a pholisïau adnoddau dynol amrywiol.




*Swyddfa ymchwil wedi'i lleoli yn yr adran cofnodion meddygol*



*Adeilad Llawfeddygol Newydd yn cael ei adeiladu*



*Rhodfa ysbyty – golygfa tuag at yr adran famolaeth*

Cafodd Zohra ei hysgogi i wirfoddoli i brofi system gofal iechyd mewn gwlad incwm isel yn uniongyrchol yn ogystal â rhannu ei gwybodaeth a'i sgiliau clinigol tra'n profi diwylliant gwahanol. Siaradodd Zohra â'i rheolwr llinell i drafod y manteision posibl iddi hi, yr adran a'r bwrdd iechyd ehangach o gymryd rhan yn y rhaglen. Ar ôl ennill cefnogaeth ei rheolwr a'r tîm ehangach, dychwelodd Zohra gyda sgiliau cyfathrebu, rheoli adnoddau a galluoedd logisteg systemau cyfoethocach yn ogystal â gwell sgiliau meddwl strategol a datrys problemau a meddwl am gynaliadwyedd yn y tymor hwy. Dychwelodd Zohra hefyd gyda chysylltiadau gydol oes a syniadau ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol.

## Fforwm Iechyd y Cyhoedd Byd-eang Pedair Gwlad y DU

Ym mis Medi 2023 a mis Mai 2024, cefnogodd y CRCI y gwaith o drefnu dau Fforwm Iechyd y Cyhoedd Byd-eang Pedair Gwlad y DU, a weithredodd fel ysgrifenyddiaeth iddynt, dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Meddygol Cymru. Sefydlwyd y Fforwm chwe-misol i gefnogi rhannu gwybodaeth ar faterion a mentrau iechyd y cyhoedd byd-eang ar draws pedair gwlad y DU.

Fforwm Iechyd y Cyhoedd Byd-eang Pedair Gwlad y DU:

- Yn cefnogi dealltwriaeth o wybodaeth iechyd y cyhoedd fyd-eang ar draws y Pedair Gwlad.
- Yn awgrymu ffyrdd y gall y pedair gwlad gyfrannu at gynnig iechyd y cyhoedd byd-eang cydlynol yn y DU.
- Yn nodi cyfleoedd i gydweithio ar weithgareddau cryfhau systemau iechyd rhyngwladol i gefnogi buddiannau masnachol y DU/Pedair Gwlad y DU a datblygu'r gweithlu.
- Yn cefnogi cydweithredu ledled y DU ar ddefnyddio cyllid sydd ar gael ar gyfer mentrau iechyd y cyhoedd rhyngwladol.
- Yn nodi enghreifftiau o arfer da a'r potensial ar gyfer cydweithio a rhannu arbenigedd mewn materion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd rhyngwladol.
- Yn gofyn am fewnbwn gan wledydd eraill mewn perthynas â bygythiadau i iechyd y cyhoedd.
- Yn cydnabod gwaith pob un o bedair gwlad y DU i gefnogi partneriaid dramor.
- Yn helpu i alluogi a chefnogi achrediad rhyngwladol a chyfranogiad mewn fforymau byd-eang/rhyngwladol.

Mynychwyd y Fforwm gan gynrychiolwyr o gyrff iechyd cyhoeddus y DU gan gynnwys y pedwar Prif Swyddog Meddygol. Yn fforwm mis Mai, dangosodd Fforwm Cymru ei huchelgeisiau rhyngwladol drwy Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru a Strategaeth Iechyd Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru a chafodd y ddau gyflwyniad ganmoliaeth ardderchog. Bydd y fforwm yn parhau gyda'r Alban yn cynnal y cyfarfod nesaf lle bydd y CRCI yn parhau i gefnogi cynrychiolwyr Cymru.

## Cynghrair Abertawe-Panzi ar gyfer ail-greu a gofalu am ddioddefwyr trais rhywiol cysylltiedig â gwrthdaro (SPARC)

Sefydlwyd Sefydliad ac Ysbyty Panzi yn Bukavu, Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo gan y gynaecolegydd Congolaidd, Dr Denis Mukwege ym 1999 ac mae wedi trin dros 85,000 o oroeswyr trais rhywiol sy'n gysylltiedig â gwrthdaro (CRSV). Derbyniodd Dr Mukwege Wobr Heddwch Nobel yn 2018 i gydnabod y gwaith hwn.

Mae'r prosiect hwn yn fenter arloesol i archwilio ffyrdd newydd y gall technegau llawdriniaeth blastig uwch helpu goroeswyr trais rhywiol sy'n gysylltiedig â gwrthdaro. Arweinir y prosiect gan Iain Whitaker, Athro Llawdriniaeth Adluniol a Meddygaeth Adfywiol a Llawfeddyg Plastig Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe a Dr Denis Mukwege. Mae'n gydweithrediad rhwng ReconRegen, Prifysgol Abertawe ac Ysbyty Panzi, gyda chefnogaeth gan ei Huchelder Brenhinol, Duges Caeredin.




Ymwelodd ei Huchelder Brenhinol Duges Caeredin â Sefydliad Panzi yn Bukavu ddiwedd 2022. Yn dilyn yr ymweliad hwn, awgrym Ei Huchelder Brenhinol oedd bod Dr Mukwege a'r Athro Whitaker yn cyfarfod i archwilio a ellid cynnig arbenigedd gan The Scar Free Foundation i gefnogi gwaith Dr Mukwege a'i dîm wrth fynd i'r afael â'r anafiadau a brofwyd gan oroeswyr CRSV.

Cytunodd Dr Mukwege a'r Athro Whitaker fod ymweliad ag Ysbyty Panzi yn hanfodol er mwyn cael mewnwelediad uniongyrchol i'r heriau clinigol. Darparodd Cynllun Grant Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru gyllid i alluogi tîm Abertawe i deithio i Ysbyty Panzi ym mis Gorffennaf 2024.

Cyn yr ymweliad archwiliadol, nododd Ysbyty Panzi bedwar maes allweddol o angen:

- Cyflwyniad i dechnegau llawfeddygaeth adluniol uwch.
- Gwell darpariaeth o hyfforddiant, gyda phwyslais arbennig ar efelychu.
- Hyfforddiant sgiliau ymchwil.
- Eiriolaeth ac ymwybyddiaeth.

*"Roedd yr ymweliad ag Ysbyty Panzi yn anhygoel, roedd yn un o uchafbwyntiau fy ngyrfa ar lefel bersonol a phroffesiynol. Cefais fy symud gymaint gan wydnwch ac agwedd gadarnhaol anhygoel y menywod yn Panzi, a'r gwaith mae Dr Mukwege wedi'i wneud dros ddau ddegawd. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n cydweithwyr yn Panzi i wella gofal a gyrru datblygiadau ymlaen i wneud gwahaniaethau sy'n newid bywydau i ddioddefwyr."* **Yr Athro Iain Whitaker. Cadeirydd mewn Llawfeddygaeth Blastig ac Adluniol, Prifysgol Abertawe**

### *Sgiliau llawfeddygol*

Gwelodd tîm yr Athro Whitaker ddeg o gleifion mewn clinig gyda Dr Mukwege. Cafodd pob un ohonynt anafiadau difrifol iawn yn dilyn digwyddiadau hanesyddol CRSV. Er yr oedd yr amser yn y theatr yn gyfyngedig yn ystod yr ymweliad archwiliadol byr, roedd yr Athro Whitaker a'i dîm llawfeddygol yn gallu perfformio gweithdrefnau adluniol ar dri chlaf. Ym mhob achos, roedd llawfeddygon Ysbyty Panzi yn gweithredu ochr yn ochr â'r Athro Whitaker a'i dîm a chawsant eu cyflwyno i dechnegau adluniol uwch yn ystod y gweithdrefnau hyn.



## *Darpariaeth Hyfforddiant*

Defnyddiwyd modelau efelychu mewn hyfforddiant llawfeddygol mewn gwledydd ag adnoddau uchel ers degawdau lawer ac mae astudiaethau diweddar wedi tynnu sylw at eu potensial mewn gwledydd lle mae adnoddau yn fwy cyfyngedig.  Ymunodd yr Athro Whitaker â Dr Hari Arora i greu 20 o fodelau hyfforddiant llawfeddygol sy'n gywir yn anatomegol a gafodd eu dwyn i Ysbyty Panzi i'w gwerthuso. Defnyddir adborth clinigwyr Panzi i lywio ailadroddiadau dilynol o'r modelau.



## *Hyfforddiant sgiliau ymchwil*

Mae astudiaethau wedi amcangyfrif mai dim ond 7% o gyhoeddiadau llawdriniaeth byd-eang academaidd sydd wedi'u hysgrifennu'n gyfan gwbl gan awduron mewn gwledydd incwm isel a chanolig. Roedd y papur academaidd, 'Evaluating the ANSWERS 3D-printed training model for reconstructive surgery in conflict-related sexual violence' yn allbwn ymchwil cydweithredol cynnar yn dilyn ymweliad mis Gorffennaf a gobeithir y bydd yn arwain at fwy o bapurau dan arweiniad, neu wedi'u hysgrifennu'n gyfan gwbl gan glinigwyr Panzi.

## *Eiriolaeth ac ymwybyddiaeth*

Cafodd ymweliad tîm Prifysgol Abertawe grybwylliad arbennig gan Lysgennad y DU i Weriniaeth Ddemocrataidd Congo (DRC) yn ei haraith ym Mhreswylfa Asiant Conswlaidd Prydain yn Bukavu ac roedd yn destun trydar ar gyfrif X swyddogol Llysgenhadaeth Prydain Kinshasa. Roedd yr ymweliad hefyd yn destun datganiadau i'r wasg a negeseuon cyfryngau cymdeithasol gan Brifysgol Abertawe a'r Scar Free Foundation.

Ym mis Hydref 2024, ymwelodd Ei Huchelder Brenhinol Duges Caeredin a Dr Mukwege â Phrifysgol Abertawe i atgyfnerthu'r gynghrair a chynllunio'r camau nesaf.

> *"Rydym yn falch bod Cymru'n chwarae ei rhan wrth gefnogi'r cydweithrediad rhyngwladol hwn, sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth frenhinol gan Ei Huchelder Brenhinol. Bydd cydweithrediad agos yr Athro Whitaker â Dr Mukwege a'r tîm yn Ysbyty Panzi yn allweddol iawn wrth helpu dioddefwyr trais rhywiol mewn gwrthdaro yn y DRC ac mae'n wirioneddol ostyngedig gweld sut mae ymchwil Cymru'n helpu yn y maes hwn."* **Michael Bowdery, Pennaeth Rhaglenni, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru**

Y bwriad yw y bydd y fenter SPARC yn gynghrair hirdymor rhwng Prifysgol Abertawe ac Ysbyty Panzi. Roedd yr ymweliad archwiliadol ym mis Gorffennaf 2024, a ariannwyd gan Gynllun Grant Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru, yn gam cyntaf pwysig wrth greu'r gynghrair hon.

Cynhaliwyd ymweliad pellach â Panzi yn gynnar yn 2025 i gynnal adluniadau cymhleth ar gleifion lluosog ag anafiadau difrifol iawn. Ar yr un pryd, bydd prosiect VVF yn ffurfioli cysylltiadau â'r Panzi i ddatblygu dulliau o uwchsgilio eu llawfeddygon drwy gyfnewidfeydd, lleoliadau llawfeddygol yng Nghymru a dulliau addysg feddygol newydd fel efelychu, rhith-realiti a realiti estynedig.

### *Adnoddau Cysylltiedig:*

Datganiad i'r wasg Prifysgol Abertawe: https://www.swansea.ac.uk/cy/swyddfar-wasg/newyddion-a-digwyddiadau/newyddion/2024/10/llawfeddyg-plastig-yn-arwain-taith-i-drosglwyddo-sgiliau-hanfodol-i-helpu-dioddefwyr-trais-rhywiol.php

Ymweliad â Bukavu: Llysgennad Ei Fawrhydi i araith y DRC https://www.gov.uk/government/news/bukavu-visit-his-majestys-ambassador-to-the-drcs-speech

## Voices of the Experts in our Midst – Wales

Yn ystod 2023, cynhaliodd Partneriaethau Iechyd Byd-eang (GHP) (THET gynt), ymholiad i brofiadau gweithwyr iechyd ar wasgar sy'n byw ac yn gweithio yn y DU, gan ganolbwyntio'n benodol ar Gymru. Daeth yr ymholiad o adroddiad 2021: Experts in our Midst a archwiliodd y cyfraniad y mae staff ar wasgar yn y DU yn ei wneud i iechyd byd-eang, a sut y caiff arbenigedd, gwybodaeth ac arweinyddiaeth y gweithwyr iechyd hyn eu hanwybyddu yn aml.

Roedd yr Ymholiad yn ceisio deall yn well y ffyrdd y mae staff ar wasgar yn system iechyd y DU, yn enwedig y rhai o wledydd incwm is a chanolig (LMICs), yn cyfrannu eu hamser, eu hadnoddau a'u harbenigedd at iechyd byd-eang, a'u barn am eu rôl o fewn iechyd byd-eang, ac o fewn system iechyd y DU yn gyffredinol. Daeth 41% o'r ymatebion i'r arolwg o fewn GIG Cymru gyda chynrychiolaeth gan holl Fyrddau Iechyd Cymru.

Yn dilyn hyn, dechreuodd GHP ar ymchwil ansoddol gyda nifer o ymatebwyr arolwg er mwyn casglu mewnwelediadau mwy manwl i'r profiadau a wynebir gan weithwyr iechyd ar wasgar (cadarnhaol a negyddol), eu dealltwriaeth o'r gwerth y maent yn ei ddwyn i system iechyd y DU ac iechyd byd-eang, a safbwyntiau ar beth a sut y gellid gwneud gwelliannau i roi gwell llwyfan i'w profiad, gwybodaeth, arweinyddiaeth ac angerdd a'r ffordd o harneisio'r rhain.

Gan gydnabod cyd-destun unigryw Cymru yn y DU, datblygwyd adroddiad Cymreig ar wahân, a chafwyd mewnwelediadau i'r 'ecosystem' iechyd byd-eang a statws gweithwyr iechyd ar wasgar yng Nghymru o drafodaethau gyda rhanddeiliaid y Llywodraeth fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Iechyd a'r Prif Swyddog Nyrsio, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill fel Hub Cymru Affrica a Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru (WaaHLN, bellach Partneriaethau Iechyd Byd-eang Cymru).

Lluniwyd yr adroddiad Cymreig gan bron i 300 o ymatebion i'r arolwg gan weithwyr iechyd ar wasgar yng Nghymru, yn ogystal â thrafodaethau grwpiau ffocws a chyfweliadau manwl.




Roedd yr adroddiad yn ddathliad o'r rôl y mae gweithwyr iechyd ar wasgar yn ei chwarae, yn system iechyd y DU ac o fewn mentrau cryfhau'r system iechyd yn fyd-eang. Adeiladodd ar safbwynt GHP bod gweithwyr iechyd ar wasgar yn meddu ar safbwyntiau a sgiliau unigryw a gludir o'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o systemau a chyd-destunau iechyd lluosog, a'r arloesedd a'r gwelliant a all ddeillio o'r wybodaeth honno. Amlygodd sut y gellir cydnabod a chymhwyso'r gwerth hwnnw yn well o fewn y DU ac o fewn ymarfer iechyd byd-eang. Tynnodd sylw hefyd at yr heriau y mae gweithwyr iechyd ar wasgar yn parhau i'w hwynebu, gan gynnwys materion gydag ymsefydlu yn y DU, y profiad o gael cymwysterau cydnabyddedig ac felly'n cael eu tanddefnyddio,  yn cael anawsterau gyda dilyniant, a phroblemau ynghylch gwahaniaethu a hiliaeth.

Mae'r adroddiad yn trafod y cyfleoedd ar gyfer gwella. Er enghraifft, rôl Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol; potensial strwythurau ariannu fel grantiau Cymru ac Affrica; cynllun Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol (ILO) i gael mentrau penodol sy'n canolbwyntio ar weithwyr iechyd ar wasgar; a rôl cyrff anllywodraethol yng Nghymru i gefnogi datblygiad Sefydliadau Iechyd Ar Wasgar a/neu fentrau iechyd byd-eang ar raddfa fach sy'n niferus ond sy'n aml heb eu cydnabod gan fecanweithiau ariannu sefydliadol.

Lansiodd GHP Cymru **Voices of Experts in our Midst – Wales** yn y Senedd ym mis Ionawr 2024 yn dathlu gwaith gweithwyr iechyd ar wasgar yng Nghymru wrth gydnabod yr heriau parhaus y mae pobl yn eu profi. Mae GHP Cymru yn bwriadu parhau â'r gwaith hwn er mwyn sicrhau bod yn rhaid i'r GIG ganolbwyntio cynhwysiant a chydraddoldeb hiliol yn ei arweinyddiaeth a'i benderfyniadau, gan sicrhau bod system iechyd Cymru yn addas ar gyfer y dyfodol, gan elwa'n llawn o'r cyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd yn ei gweithlu gofal iechyd amrywiol.

Mae fersiwn Saesneg o'r adroddiad yn ogystal â fersiwn Gymraeg ar gael ar wefan GHP.

## Gweithdai Dinasyddiaeth Fyd-eang

> *"Mae'r gwaith hwn yn taflu goleuni ar feysydd yr ydym ar y cyd yn ofni siarad amdanynt oherwydd nad ydym am 'ei wneud yn anghywir' gyda therminoleg ac ystrydebau. Fodd bynnag, dim ond pan fyddwn ni'n ddigon hyderus i siarad allan am yr hyn rydyn ni'n ei ddeall y gallwn ni weithio gyda'n gilydd i ddatblygu rhywbeth gwell."* Amber Demetrious, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA)

Mae'r CRCI a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) wedi bod yn hyrwyddo hyfforddiant dinasyddiaeth fyd-eang drwy gyfres o weithdai dinasyddiaeth fyd-eang yn y cnawd ac ar-lein (7, o 2022-24) ar draws partneriaid a rhwydweithiau GIG Cymru. Yn ogystal, mae 3 darlith wadd wedi cael eu cynnal ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae'r gweithdai wedi cefnogi darparwyr gofal iechyd ar draws amrywiaeth o sefydliadau i archwilio globaleiddio a'r rhwystrau i weithio mewn partneriaeth fyd-eang ar-lein ac yn y cnawd.

Fel rhan o'r gweithdai, gofynnwyd i'r cyfranogwyr beth roeddent yn ei ddeall wrth y term dinasyddiaeth fyd-eang ac ar y diwedd gofynnwyd iddynt sut y byddent yn hyrwyddo'r gwaith hwn yn eu sefydliadau.

> *"Ar ôl heddiw, rwy'n pendroni sut y gall cysylltiadau byd-eang weithredu newidiadau mewn gofal iechyd"* Cyfranogwr mewn gweithdy

### GWEITHIO'N GILYDDOL MEWN PARTNERIAETH

"Yr hyn sydd wedi teimlo'n bwysig i mi yw sut rydym wedi cydweithio'n wirioneddol ar y fenter hon a chyda chyfathrebu parhaus cyn, yn ystod ac ar ôl y sesiynau, rydym wedi datblygu dealltwriaeth ddyfnach o anghenion ein partneriaid a sut y gallant ddefnyddio'r hyfforddiant hwn mewn ffyrdd ymarferol yn eu gweithleoedd." Laura Holt, CRCI





Er mwyn helpu i wneud dinasyddiaeth fyd-eang yn fwy dealladwy, mae'r CRCI wedi creu poster un dudalen. Mae'r CRCI, ynghyd â'r WCIA hefyd yn adolygu'r modiwlau e-ddysgu er mwyn eu diweddaru, eu gwneud yn fyrrach ac yn fwy hygyrch. Wedi'i hysbrydoli gan waith Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae rhaglen Dinasyddiaeth Fyd-eang yr Alban hefyd, ar hyn o bryd, yn creu ei hyfforddiant Dinasyddiaeth Fyd-eang ei hun, sy'n cyd-fynd yn agos â'r fenter Gymreig hon.

## Adroddiadau Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol

Cychwynnwyd adroddiadau Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol yn 2020 fel rhan o fesurau ymateb ac adfer COVID-19 yng Nghymru. Ehangwyd cwmpas yr adroddiadau yng Ngwanwyn 2022 i gynnwys blaenoriaeth a phryderon iechyd y cyhoedd sy'n dod i'r amlwg a nodwyd gan randdeiliaid allweddol, megis Llywodraeth Cymru a Swyddogion Gweithredol y GIG.

Mae'r adroddiadau yn cael eu cynhyrchu bob chwarter a'u nod yw darparu crynodeb lefel uchel o ddysgu rhyngwladol ac arferion gorau gwledydd, ac i gyfleu canfyddiadau allweddol i lunwyr penderfyniadau a pholisïau mewn ffordd hawdd ei deall a chlir.

Lluniwyd dros 50 o adroddiadau, gyda phynciau diweddar yn cynnwys:

- Mesurau cyllidol i ymdrin â gordewdra
- Penderfynyddion masnachol iechyd
- Effaith tlodi ar fabanod, plant a phobl ifanc
- Ymgorffori atal mewn gofal sylfaenol a chymunedol
- Pum Amod Hanfodol ar gyfer Tegwch Iechyd
- Iechyd meddwl a llesiant ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Defnyddiwyd yr adroddiadau hyn i lywio polisïau a rhaglenni gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru ac maent wedi ymddangos mewn adnoddau a chynadleddau gan gynnwys Cynhadledd Iechyd y Cyhoedd Ewrop 2023 a'r cylchlythyr Nursing in Practice yn 2024.

Yn ogystal, derbyniwyd adborth cadarnhaol gan ICC, Ymchwil Senedd Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd.

> *"Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at effaith annifyr strategaethau masnachol ar iechyd y boblogaeth ar draws ystod eang o ddiwydiannau. Mae nodi'r dulliau strategol y mae gwledydd wedi'u cymryd i wrthsefyll yr effaith honno yn gyfraniad i'w groesawu i'n gwaith wrth fynd i'r afael â'r effeithiau hynny."* Sefydliad Iechyd y Byd

**Adnoddau Cysylltiedig:** Sganio Gorwelion Rhyngwladol - Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd dros Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant



## Galluogi Economi Lesiant yng Nghymru: Cydweithio rhwng Sefydliad Iechyd y Byd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru

*"Mae Siarter Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol GIG Cymru wedi gwasanaethu fel glasbrint ar gyfer symud ymlaen â'n cydweithrediad a'n rhwydweithiau rhyngwladol, gan gynnwys gyda Sefydliad Iechyd y Byd i sicrhau perthynas fuddiol i'r ddwy ochr a dull systematig a chynaliadwy."*
Dr Mariana Dyakova, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Dirprwy Gyfarwyddwr a Phennaeth Iechyd Rhyngwladol, Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, CG Sefydliad Iechyd y Byd dros Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant yn Iechyd Cyhoeddus Cymru




Mae Cymru'n symud tuag at economi les, system economaidd sy'n gwasanaethu pobl a'r blaned yn hytrach na meithrin elw. Mae'r dull economi lesiant yn darparu ffordd i ail-lunio'r economi a gweithio ar draws sectorau i gyflawni iechyd a thegwch ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mewn economi les, mae cynnydd yn cael ei fesur gan fetrigau mwy holistaidd y tu hwnt i Gynnyrch Domestig Gros (GDP) gydag iechyd a llesiant wrth eu gwraidd. Mae ail-ddiffinio pwrpas yr economi yn golygu rhoi mecanweithiau ar waith sy'n galluogi'r symudiad, fel deddfwriaeth. Yng Nghymru, mae'r dull llesiant wedi'i gadarnhau mewn deddfwriaeth a pholisïau, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) sy'n ailddiffinio nodau datblygu economaidd i flaenoriaethu llesiant y boblogaeth drwy fyw a gweithio o fewn ffiniau planedol. Mae Cymru wedi cael ei chydnabod fel cenedl hyrwyddo wrth symud yr economi lesiant ymlaen yn rhyngwladol, gan ddod yn aelod o Lywodraethau'r Economïau Llesiant (WEGO).

Mae gan Ganolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd dros Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (WHOCC) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru berthynas hirsefydlog â Swyddfa Fenis Sefydliad Iechyd y Byd, gan ddatblygu a defnyddio dulliau ac offer arloesol i nodi a rhannu atebion ar gyfer polisi a gweithredu sy'n datblygu economïau llesiant, yn enwedig drwy lens iechyd y cyhoedd. Mae gwaith WHOCC yn cefnogi menter Economi Lesiant Ewropeaidd Sefydliad Iechyd y Byd gyda gweithgareddau cydweithredol yn amrywio o gyd-drefnu Fforwm Lefel Uchel Rhanbarthol Ewropeaidd agoriadol Sefydliad Iechyd y Byd ar Iechyd yn yr Economi Les, gan gyhoeddi'r WHO Country deep dive on the well-being economy: Wales a datblygu gwaith ar ddeialog Polisi Lefel Uchel Sefydliad Iechyd y Byd a gynhelir yng Nghymru. Mae ein gwaith wedi hwyluso Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Ranbarthol Sefydliad Iechyd y Byd dros Ewrop (2020-2026) sy'n canolbwyntio ar Gymru fel safle arloesi byw ar gyfer datblygu economïau llesiant a thegwch iechyd. Mae hyn hefyd wedi arwain at gydnabod Prif Weinidog Cymru, Eluned Morgan, fel Hyrwyddwr Economi Lesiant Sefydliad Iechyd y Byd, gan ysbrydoli gwledydd eraill i gymryd dull o'r fath a gosod iechyd a llesiant yn uchel ar yr agenda wleidyddol.

Mae cydweithio â Sefydliad Iechyd y Byd wedi galluogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i arddangos a rhannu arferion gorau yn ogystal â manteisio ar ddysgu rhyngwladol i wella dealltwriaeth a sbarduno polisïau, prosesau a ffyrdd o weithio i alluogi'r economi lesiant yn genedlaethol. Mae hefyd wedi cryfhau rôl sefydliadau iechyd y cyhoedd ac iechyd y cyhoedd cenedlaethol fel nid buddiolwyr yn unig ond

sbardunwyr ail-feddwl ac ail-lunio systemau economaidd cyfredol, gan ymgysylltu ar draws rhwydweithiau iechyd y cyhoedd rhyngwladol. Mae hyn hefyd wedi darparu cyfleoedd cyffrous ar gyfer recriwtio a chadw staff, yn ogystal â datblygiad proffesiynol yng Nghymru a thu hwnt. Yn y pen draw, mae wedi helpu'r sefydliad i dyfu, arallgyfeirio a chyflawni'n fwy effeithiol ar ei flaenoriaethau strategol.

Mae cydweithio ar draws sectorau a ffiniau, cyfuno arbenigedd, gallu ac adnoddau yn cyflymu nodau a chamau a rennir i symud buddsoddiad, gwariant ac adnoddau i economïau llesiant gydag iechyd ac ecwiti wrth eu craidd.

Mae WHOCC wedi datblygu animeiddiad ar eu dull tuag at yr economi les: https://icccgsib.co.uk/ih/ein-gwaith/buddsoddiad-cynaliadwy-mewn-iechyd-a-llesiant/

# Adran pedwar: Camau gweithredu arfaethedig ar gyfer y dyfodol

**Mae'r CRCI wedi ymrwymo i barhau i arwain, cefnogi a chydweithio â sefydliadau'r GIG ledled Cymru a'u phartneriaid. Dros y ddwy flynedd nesaf, nod y CRCI yw:**

## Cefnogi dull strategol cyfunol

- Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid ar lefel strategol i hyrwyddo a gwella gwaith partneriaeth iechyd rhyngwladol. Mae hyn yn bwysig wrth bennu cyfeiriad strategol a darparu fforwm traws-sectorol i bartneriaid a chynrychiolwyr Iechyd Rhyngwladol Cymru ddal a hyrwyddo synergeddau mewn gweithgarwch iechyd rhyngwladol.
- Gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i ddatblygu strategaethau i alluogi gwaith partneriaeth iechyd rhyngwladol gyda chydweithwyr ledled y DU a thramor i gefnogi recriwtio, cadw a llesiant staff yn GIG Cymru a chefnogi dysgu a rennir y gellir ei ddefnyddio yng Nghymru i helpu i hyrwyddo a diogelu iechyd poblogaethau Cymru a lleihau anghydraddoldebau.

## Ehangu'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol

- Cynyddu ymgysylltiad â Byrddau ac Ymddiriedolaethau'r GIG i'w helpu i gefnogi gwaith partneriaeth iechyd rhyngwladol, ymgorffori egwyddorion y siarter yn eu gweithgareddau iechyd rhyngwladol ac i wireddu eu hamcanion llesiant yn llawn.
- Ehangu'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol, gan ddarparu fersiwn wedi'i diweddaru sy'n adlewyrchu'r dirwedd iechyd rhyngwladol gyfredol a'r heriau.
- Adeiladu ar lwyddiant Grŵp Gweithgarwch Rhyngwladol y GIG ac anelu at sicrhau uwch gynrychiolaeth gan holl Fyrddau ac Ymddiriedolaethau'r GIG ar y Grŵp er mwyn caniatáu goruchwyliaeth glir ar draws sefydliadau pob sefydliad a sicrhau cefnogaeth gan y Bwrdd.



## Meithrin gweithredu o amgylch gweithgarwch Iechyd Rhyngwladol

- Ehangu'r cymorth ymarferol a ddarperir i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau i annog ymgysylltiad rhyngwladol gan ganolbwyntio'n arbennig ar systemau i alluogi rhannu arferion da.
- Parhau i gyhoeddi cylchlythyrau chwarterol, datblygu pecynnau cymorth ac astudiaethau achos a mathau eraill o gymorth ymarferol a sicrhau bod hyn ar gael mewn ffordd hygyrch.
- Casglu a lledaenu adroddiadau effeithiol o weithgareddau rhyngwladol a gynhaliwyd gan Fyrddau ac Ymddiriedolaethau GIG a phartneriaid sy'n dangos canlyniadau gwaith rhyngwladol y sefydliad a'i effaith ar sefydliadau partner yn glir.
- Gyda chymorth partneriaid, meithrin diwylliant ar draws system iechyd Cymru sy'n gwerthfawrogi effaith profiadau a gafwyd o weithgarwch rhyngwladol i helpu i gyflwyno'r achos dros pam mae gweithgarwch rhyngwladol yn dda i unigolion, i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau'r GIG ac i Gymru gyfan.
- Cryfhau rhwydweithiau rhannu gwybodaeth ac ymchwil a all greu cyfleoedd i ledaenu arferion da ar draws system iechyd Cymru gan rannu arloesiadau o systemau iechyd eraill a fabwysiadwyd gan Ymddiriedolaethau a Byrddau unigol ar draws y GIG.
- Annog dysgu byd-eang, gwerth gweithgareddau iechyd rhyngwladol, a chydnabyddiaeth o gyfraniadau gweithwyr iechyd ar wasgar drwy gefnogi Byrddau ac Ymddiriedolaethau'r GIG i hyrwyddo ymgysylltiad ar wasgar sy'n gwerthfawrogi arbenigedd gweithwyr gofal iechyd ar wasgar yng Nghymru ac yn fyd-eang.

## Adeiladu ar y Strategaeth Iechyd Rhyngwladol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

- Gyrru momentwm ar gyfer y Fforwm Iechyd y Cyhoedd Rhyngwladol gan gynnwys cynrychiolaeth lefel uchel gan Fyrddau ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn ogystal â gan sefydliadau ar draws Cymru, Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner.
- Parhau i gefnogi cyfarfodydd Iechyd y Cyhoedd Rhyngwladol Pedair Gwlad y DU a hwyluso cydweithio â Gweinidogaeth Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yr Iseldiroedd (VWS) a Sefydliad Cenedlaethol yr Iseldiroedd dros Iechyd y Cyhoedd a'r Amgylchedd (RIVM)
- Ehangu grwpiau a hyfforddiant mewn iechyd byd-eang a dinasyddiaeth fyd-eang, gan weithio gyda Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru a phartneriaid i adolygu a diweddaru'r modiwlau e-ddysgu a'r darlithoedd.

# Adran Pump: **Sylwadau i gloi**

Dechreuodd yr adroddiad cynnydd hwn drwy gydnabod effaith barhaol pandemig COVID-19 ar Gymru, y DU, a'r byd ehangach. Roedd yn cydnabod y pwysau parhaus sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru. Er gwaethaf yr heriau hyn, amlygodd yr adroddiad sut roedd unigolion a sefydliadau yn gosod iechyd rhyngwladol yng nghanol eu gwaith, gan gyfrannu at ddarparu gwasanaethau o fewn Cymru a chyda phartneriaid byd-eang. Arweiniodd yr ymdrechion hyn at ddysgu a rennir, buddion i'r ddwy ochr, a gwell llesiant i bawb dan sylw.

Mae'r adroddiad hwn hefyd wedi myfyrio ar rôl y CRCI yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'r cyd-destun yr oedd yn gweithredu ynddo. Amlinellodd y cyflawniadau hyd yma ac ailddatganodd ymrwymiad y CRCI i arwain, cefnogi a chydweithio â sefydliadau'r GIG yng Nghymru a phartneriaid rhyngwladol.

Yn olaf, mae'r adroddiad hwn yn dangos bod y CRCI yn parhau i fod yn ymrwymedig i barhau i arwain, cefnogi a chydweithio â sefydliadau GIG Cymru, partneriaid ledled Cymru ac yn rhyngwladol i wireddu buddion a llesiant i bawb yn y broses.

# Cyfeiriadau


Chalmers, K. ac Okeah, B. (2021) International Health Activity in Wales: Rapid Review. Ar gael yn: https://www.thet.org/resources/international-health-activity-in-wales-rapid-review/ (Cyrchwyd: 3 Mawrth 2025).

Chisholm, G. (2021) Experts in Our Midst: Recognising the contribution NHS diaspora staff make to global health. Ar gael yn: https://www.thet.org/resources/experts-in-our-midst/ (Cyrchwyd: 17/12/24).

Clark, E. et al. (2022) Adroddiad Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol: Yr Argyfwng Costau Byw. Ar gael yn: https://icccgsib.co.uk/wp-content/uploads/2022/08/WELSH-PHW-IntHorizonScan_Report_40_August2022-Final-WELSH-v2.pdf (Cyrchwyd: 28 Medi 2024.)

Dyakova, M., Couzens, L. a Bellis, M. (2017) Iechyd Cyhoeddus Cymru: Ein Strategaeth Iechyd Rhyngwladol 2017-27. Ar gael ar: https://icccgsib.co.uk/wp-content/uploads/2020/08/PHW-International-Strategy-Cym-web-SM.pdf (Cyrchwyd: 11/12/2025).

Dyakova, M. et al (2020) Sut i Gyflwyno’r Achos dros Fuddsoddi Cynaliadwy mewn Tegwch Iechyd a Llesiant: Canllaw Ymarferol Ar gael yn: https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/07/How-to-Make-the-Case-Guide.pdf (Cyrchwyd: 17 Rhagfyr 2024).

Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru (2015), Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru). Ar gael yn: https://futuregenerations.wales/cym/darganfod/cenedlaethaur-dyfodol-cymru/deddf-cenedlaethaur-dyfodol-2015/ (Cyrchwyd: 11/12/2025).

Hill, K. et al. (2007) Maternal Mortality Working Group. Estimates of maternal mortality worldwide between 1990 and 2005: an assessment of available data. The Lancet. PMID: 17933645. https://doi.org/10.1016/S0140-6736(07)61572-4 (Cyrchwyd: 3/3/25).

Dylanwadu ar y Bwlch Iechyd yng Nghymru: Papur trafod dadansoddiad dadelfennu. Iechyd Cyhoeddus Cymru (2022) WHOCC. Ar gael ar: https://icccgsib.co.uk/wp-content/uploads/2022/07/2022_whesri_influencingthehealthgapinwales_w.pdf (Cyrchwyd: 17/12/2025).

Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (2024) ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru: Pecyn Cymorth Gweithredu. Ar gael yn: https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2024/06/Y-Siarter-ar-gyfer-Partneriaethu-Iechyd-Rhyngwladol-yng-Nghymru-Pecyn-Cymorth-Gweithredu-1.pdf (Cyrchwyd: 17/12/2025).

Nyoloka N, Richards C, Mpute W, Chadwala HM, Kumwenda HS, Mwangonde-Phiri V, Phiri A, Phillips C, Makanga C. (2024) Pharmacist-Led Antimicrobial Stewardship Programme in Two Tertiary Hospitals in Malawi. Antibiotics. 13(6):480. https://doi.org/10.3390/antibiotics13060480 (Cyrchwyd: 17/12/24).

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) Adroddiad Cynnydd CRCI 2018-22. Ar gael yn: https://icccgsib.co.uk/adnoddau/adroddiad-cynnydd-ihcc-2018-2022/ (Cyrchwyd: 11/12/2025).

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru. Ar gael yn: https://icccgsib.co.uk/ih/ein-gwaith/welsh-health-equity-status-report-initiative-whesri/ (Cyrchwyd: 17/12/2025).

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2023) Ein Strategaeth Hirdymor 2023-2035. Ar gael yn: https://icc.gig.cymru/amdanom-ni/gweithio-gydan-gilydd-ar-gyfer-cymru-iachach/phw-ein-strategaeth-hirdymor-pdf/ (Cyrchwyd 12/1/25).

Tonkin, E. et al (2024) Voices of Experts in Our Midst. Ar gael yn: https://www.thet.org/wp-content/uploads/2023/12/Voices-of-the-Experts-In-Our-Midst.pdf (Cyrchwyd: 17/12/24).

Tonkin, E. et al (2024) Voices of Experts in Our Midst – Wales. Ar gael yn: https://www.thet.org/wp-content/uploads/2024/01/English-lang-Welsh-report_Voices-of-the-Experts-In-Our-Midst.pdf (Cyrchwyd: 17/12/2025).

Y Cenhedloedd Unedig (2015a) The Sustainable Development Goals. Ar gael yn: https://sdgs.un.org/goals (Cyrchwyd: 11/12/2025).

Y Cenhedloedd Unedig (2015b) Transforming our world: the 2030 Agenda for Sustainable Development. Ar gael yn: https://sdgs.un.org/2030agenda (Cyrchwyd: 11/12/2025).

Y Cenhedloedd Unedig (2021) High-Level Political Forum on Sustainable Development: High-Level Political Forum 2021. Ar gael yn: https://regions4.org/events/un-high-level-political-forum/?cid=86&pnum=13 (Cyrchwyd: 11/12/2025).

Llywodraeth Cymru (2020) Strategaeth Ryngwladol. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/strategaeth-ryngwladol-i-gymru-v1.pdf (Cyrchwyd: 17 Rhagfyr 2024).

Sefydliad Iechyd y Byd (2023) Burns Fact Sheet. Ar gael yn: https://www.who.int/news-room/fact-sheets/detail/burns (Cyrchwyd: 3/3/2025).

**Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd**

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Ebost enquiries@wales.nhs.uk

Ffoniwch ni **(+44) 02920 104 459**

@IHCCWales

https://icccgsib.co.uk/ih/ein-gwaith/the-international-health-coordination-centre-ihcc/